

Neges gan Stuart, Ficer St Gwyddelan

(Gwelwch y mewnosod ar gyfer gwasanaethau'r eglwys dros gyfnod y Nadolig)

Annwyl Ffrindiau,

Yn ystod tymor y gaeaf, ar adeg lle'r ydym yn edrych ymlaen at swatio yn ein cartrefi a mwynhau prydau sy'n cynhesu ein tu mewn, mae prisiau bwyd a thanwydd yn prysur gynyddu. Bwriad ymgyrch 'Bwyd a Thanwydd' Yr Eglwys yng Nghymru www.churchinwales.org.uk ydy mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn. Mae croeso ichi ymuno â'r ymgyrch hwnnw ac arwyddo'r llythyr agored i'r prif archfarchnadoedd i ofyn iddyn nhw am godi prisiau teg, talu cyflogau priodol i staff, lleihau gwastraff a sicrhau eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth cludo sy'n gweddu i bob cyllideb.

Byddai'n rhy syml i awgrymu ein bod ni i gyd yn cydymffurfio â'r doethineb hynafol 'paratoi'n ddigonol at y gaeaf', gan gasglu nwyddau i oroesi oerni, stormydd a dyddiau tywyll y gaeaf yn barod at oleuni a chynhesrwydd y gwanwyn sy'n hybu tyfiant. Mae yna dasg bwysig inni rwan hyn i ymgynnull a chynnig cynhesrwydd a bwyd i'n gilydd. Gan fwrw golwg ar y byd natur o'n cwmpas, fe welwn y coed derw sy'n llawn dop o fes. Ychydig iawn o'r rheiny fydd yn tyfu'n goed, bydd y rhan fwyaf yn bwydo fforwyr y byd natur, gwiwerod ac ati – rhai a fydd, o ystyried y dystiolaeth ar y ddaear, yn bwyta llond eu boliau eleni. Mae'r goeden dderw yn rhannu ei haelioni ac mae'n debyg y bydd cof drwg y gwiwerod am le maen nhw wedi cuddio'u mes yn talu ar ei ganfed yn y blynyddoedd l ddod.

Bwyd a Thanwydd. Mae angen y ddau yma arnom ni hefyd, ar gyfer ein hiechyd corfforol yn ogystal ag ein hiechyd meddwl – gallwch ei alw'n fwyd ysbrydol – hwb i ddod ynghyd a dathlu er gwaethaf y trafferthion. Mae bwrw iddi gyda pharatoadau gofalus yr Adfent a stori Nadolig Genedigaeth Iesu yn gysur imi. Dydy hyn ddim yn unig oherwydd yr oedd yn gyfnod heriol yn y ganrif gyntaf hefyd, neu gan fod Iesu wedi'i eni mewn byd trafferthus ond oherwydd bod genedigaeth Iesu yn dangos inni fod Duw yn brysur yn gweithredu bob amser. Mae Duw yn nesáu atom, fel bod modd inni gydnabod peth o'r goleuni dwyfol. Mae'n debyg y bydd llawer un yn honni mai prin iawn ydy'r goleuni dwyfol eleni. Fodd bynnag, byddwn yn eich annog i daro golwg yn nes at adref fel petai, y tu hwnt i'r penawdau. Edrychwch lle caiff cariad ei rannu, lle mae cymdogion a chyfeillion yn ymgynnull, lle caiff dieithriaid eu croesawu a chael cynnig lletygarwch. Sylwch ar haelioni blychau Banciau Bwyd ein cymunedau a'r rhoddion sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ystod cyfnod o galedi. Sylwch ar yr achlysuron sy'n gyfle i bobl ddod ynghyd a rhannu ein hoff draddodiadau ar ffurf straeon a chaneuon. I'r perwyl hwn, gallwn ddatguddio mymryn o'r goleuni a'r bywyd hwnnw unwaith eto yn ystod y gaeaf eleni. Pob dymuniad gorau ichi yn ystod yr Adfent, y Nadolig ac yn y Flwyddyn Newydd.

Stuart

Mae'r Gwasanaethau yn Sant Gwyddelan bob yn ail wythnos fel arfer, ar y dydd cyntaf a'r trydydd dydd Sul. Mae'r Eglwys ar agor i ymwelwyr ar ddydd Sadwrn, Sul a Mercher yn ystod y gaeaf. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau ar wefan Bro Gwydyr www.brogwydyr.cymru